

## Gwybodaeth i Gleifion

# Gosod Generadur Rheolydd Calon Newydd (Having A Pacemaker Generator Change)

Batri Newydd (Battery Change)



Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty'r Galon a'r Frest Lerpwl  
Thomas Drive  
Lerpwl  
Glannau Mersi  
L14 3PE  
Ffôn: 0151-228 1616  
[www.lhch.nhs.uk](http://www.lhch.nhs.uk)

Ysgrifennwyd y daflen hon i roi gwybodaeth i gleifion am beth sy'n digwydd pan fydd generadur rheolydd calon newydd yn cael ei osod. Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ateb rhai o'r cwestiynau neu'r pryderon sydd gennych ynglŷn â'r driniaeth. Cofiwch y dylech siarad gyda staff meddygol neu nyrso yn ogystal â darllen y daflen hon.

#### **Pam mae arna'i angen generadur rheolydd calon newydd?**

Dyfais yw Rheolydd Calon sy'n helpu i gynnal neu reoleiddio curiad eich calon a chyflymder y curiad. Mae generadur eich Rheolyddion Calon (sy'n cael ei alw'n aml yn 'focs') fel unrhyw fatri arall ac mae'r amser yn dod pan mae angen un newydd, er y gall bara hyd at 10 mlynedd. Bydd yr angen am fatri newydd yn cael ei benderfynu pan gewch eich archwiliadau rheolydd calon arferol.

#### **Sut mae Generadur Rheolydd Calon yn cael ei osod?**

Byddwch fel arfer yn effro yn ystod y driniaeth ond byddwch yn cael anaestetig i fferru'r croen. Fodd bynnag weithiau mae anaestetig cyffredinol yn cael ei ddefnyddio.

Bydd toriad bach yn cael ei wneud uwchben neu o dan y toriad gwreiddiol. Bydd generadur y rheolydd calon, sydd wedi ei leoli o dan y croen, yn cael ei newid, fel arfer gan adael y gwifrau gwreiddiol yn eu lle. Bydd y toriad yn cael ei gau gyda phwythau fydd yn toddi ohonynt eu hunain neu gyda glud o fath arbennig.

Mae eich calon yn dibynnu ar eich rheolydd calon i wneud iddi guro, felly byddwch yn cael eich cysylltu â pheiriant allanol fydd yn gwneud hyn yn lle'r rheolydd calon tra bydd y generadur yn cael ei newid.

#### **Fyddai'n teimlo poen yn ystod y driniaeth?**

Unwaith y bydd y croen wedi cael ei fferru gydag anaestetig lleol ddylech chi ddim teimlo unrhyw boen. Efallai y byddwch yn teimlo rhywbeth yn symud wrth i'r rheolydd gael ei osod. Os ydych yn teimlo unrhyw boen yn ystod y driniaeth mae'n rhaid i chi ddweud wrth y staff.

#### **Faint o amser fydd y driniaeth yn ei gymryd?**

Bydd y driniaeth yn cymryd tua hanner awr fel arfer. Bydd angen i chi gael eich derbyn i'r ysbyty, fel arfer dim ond am un diwrnod.

### **Canllawiau ymprydio cyn y driniaeth**

Byddwch yn cael gwybod pa bryd y dylech stopio bwyta neu yfed yn eich llythyr yn gofyn i chi fynd i'r ysbyty am y lawdriniaeth. Mae'n bwysig iawn i chi nodi y dylech ymprydio am yr union amser a nodir yn y llythyr ac nid am gyfnodau byrrach na hirach. Bydd hyn yn sicrhau bod eich triniaeth yn ddiogel.

Os nad ydych yn ymprydio ddigon hir efallai y bydd yn rhaid gohirio neu ganslo'r driniaeth. Os ydych yn ymprydio rhy hir efallai y byddwch yn dadhydradu (dim digon o ddŵr yn y corff) a gall hyn arwain at gymhlethdodau yn ystod neu ar ôl y driniaeth.

Er enghraifft, os bydd eich llythyr yn gofyn i chi ymprydio o hanner nos ymlaen, bydd yn ddiogel i chi fwyta ac yfed tan yr amser hwn felly gallwch gael rhywbeth i'w fwyta a diod ar ôl eich pryd gyda'r nos neu cyn i chi fynd i'r gwely.

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â pha mor hir y bydd angen i chi ymprydio cysylltwch ag ysgrifenyddes eich meddyg, bydd y rhif yn cael ei roi ar eich llythyr o'r ysbyty.

### **Sut ddylwn i baratoi ar gyfer y driniaeth?**

Efallai y gofynnir i chi fynychu clinig arbennig cyn dyddiad y driniaeth, i'ch paratoi ar gyfer yr hyn fydd yn digwydd.

Fel arfer byddwch yn cael eich derbyn i'r ysbyty ar ddiwrnod y driniaeth.

Os nad ydych wedi cael archwiliad mewn clinig cyn-triniaeth efallai y byddwch angen prawf ECG i ddangos rhythm y galon yn ogystal â phroffion gwaed arferol.

Bydd staff ar y ward yn paratoi eich brest ar gyfer y theatr gyda hylif antiseptig.

### **Beth yw manteision cael y driniaeth?**

Bydd newid generadur yn sicrhau bod eich rheolydd calon yn parhau i weithio'n iawn.

### **Beth ydy'r risgiau cysylltiedig â'r driniaeth?**

Mae risg bychan iawn o haint ar y croen yn y man lle gwnaed y toriad.

O dro i dro mae'r gwifrau sy'n arwain o'r generadur i'r galon yn symud o'u lle yn ystod y driniaeth.

Bydd unrhyw risgiau cysylltiedig â'r driniaeth yn cael eu trafod gyda chi'n fwy manwl cyn i chi lenwi'r ffurflen ganiatâd.

### **Pa ddewisiadau eraill sydd gen i?**

Mae generaduron pob rheolydd calon yn gorfod cael eu newid yn y pen draw er mwyn i'r rheolydd barhau i weithio.

### **Beth alla'i ei ddisgwyl ar ôl y driniaeth?**

Pan fydd y driniaeth ar ben byddwch yn cael eich symud yn ôl i'r ward. Dylech osgoi symud eich braich ar ochr yr ochr y cafodd y rheolydd ei osod. Byddwch yn cael bwyta ac yfed oni bai eich bod angen rhagor o brofion.

### **Pryd fydda i'n cael dechrau gwneud pethau arferol eto?**

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael mynd adref yn hwyrach ymlaen y diwrnod hwnnw. Byddwch yn cael cerdyn cofrestru rheolydd calon newydd y bydd yn rhaid i chi ei gadw gyda chi bob amser a'i ddangos i unrhyw weithwyr meddygol proffesiynol sy'n eich trin. Ddylech chi ddim gyrru am wythnos . Os ydych yn gyrru cerbyd y mae angen trwydded arbennig ar ei gyfer (LGV/PVC) fyddwch chi ddim yn cael gyrru am o leiaf 6 wythnos.

### **Edrych ar ôl y clwyf**

**Byddwch yn cael gwybodaeth bwysig am sut i ofalu am y clwyf ar ôl i chi adael yr ysbyty a beth ddylech chi ei wneud os ydych yn gweld unrhyw gochni, chwydd neu redlif o amgylch lleoliad y rheolydd**

**Bydd y cyngor hwn yn cael ei drafod yn fwy manwl cyn i chi fynd adref a byddwch yn cael taflen gyngor i gleifion sy'n gadael yr ysbyty.**

**Mae'n bwysig dros ben eich bod yn mynychu eich apwyntiadau rheolaidd yn y clinig ar gyfer pobl sydd wedi cael rheolydd calon.**

**Am ragor o wybodaeth ewch i:**

**[www.lhch.nhs.uk](http://www.lhch.nhs.uk)**

**[www.nhsdirect.nhs.uk](http://www.nhsdirect.nhs.uk)**

**[www.bhf.org.uk](http://www.bhf.org.uk)**

**[www.dipex.org](http://www.dipex.org)**

**Neu cysylltwch â:**

**Llinell wybodaeth Sefydliad Prydeinig y Galon ar 0845 0708070**

**Os ydych angen copi o'r ffurflen hon ar fformat neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni gan ddyfynnu côd y daflen a'r iaith neu'r fformat yr ydych ei angen.**